

Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mehefin 2016



Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC
Swyddfeydd y Llywodraeth
Rhydycar
Merthyr Tydful
CF48 1UZ

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu trwy'r canlynol:

Ffôn: 0300 7900 126

Ebost: cssiw@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: www.aggcc.org.uk

Gwefan y Gydarolygiaeth: www.arolygucymru.com

Ffôn: 0300 062 8163

Ebost: hiw@cymru.gsi.gov.uk

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Cyd-destun.....	3
Crynodeb o Ganfyddiadau	4
Argymhellion.....	9
Canfyddiadau – Yr Awdurdod Lleol	11
Canfyddiadau – Y Bwrdd Iechyd	32
Methodoleg.....	41
Cydnabyddiaethau.....	43

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn o arolygiad o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o arolygiad cenedlaethol o ofal a chymorth i oedolion ag anableddau dysgu. Diben yr arolygiad yw asesu llwyddiant gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol o ran cyflawni canlyniadau sydd o bwys i bobl. Bydd yn gwneud hyn trwy asesu effeithlonrwydd, ansawdd a diogelwch y gofal a'r cymorth a ddarperir i oedolion ag anableddau dysgu. Bydd yn nodi'r ffactorau hynny sy'n sicrhau canlyniadau da i bobl yn ogystal â rhwystrau i gynydd. Mae'r arolygiad cenedlaethol yn cynnwys gwaith maes manwl mewn chwe awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, a bydd adroddiad unigol ar gyfer pob un o'r chwe awdurdod lleol yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Rydym hefyd wedi llunio adroddiad trosolwg ar gyfer Cymru sy'n manteisio ar yr holl wybodaeth sydd ar gael i'r arolygiaeth, gan gynnwys arolwg cenedlaethol o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Dewch o hyd i'r hadroddiadau ar ein [safle](#).

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Phobl yn Gyntaf Cymru a Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr trwy gydol yr arolygiad cenedlaethol mewn ymdrech i ymgysylltu'n rhagweithiol â phobl a chyda gofalwyr sy'n cael eu heffeithio gan y materion a drafodir. Mae rhagor o fanylion am ein hymgysylltiad â phobl a gofalwyr ar gael yn yr adroddiad trosolwg.

Ymunodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â ni am ran o'r arolygiad i gynorthwyo gyda'r ystyriaeth o effeithiolrwydd y bartneriaeth rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Mae AGIC wedi amlinellu eu canfyddiadau ar dudalen 31 a bydd hefyd yn adrodd ar ei chanfyddiadau i'r bwrdd iechyd yn uniongyrchol.

Mae'r adroddiadau sy'n dilyn yn cyflwyno ein canfyddiadau a'n hargymhellion ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ein bwriad, yn gyntaf, yw darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am berfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ac, yn ail, cefnogi gwelliant i'r gofal a'r cymorth a ddarperir i bobl ag anableddau dysgu.

Cyd-destun

Yr Awdurdod Lleol

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr boblogaeth o tua 141,000 (amcangyfrif canol blwyddyn 2014). Ers cyfrifiad 2011, bu mân gynnydd i gyfanswm y boblogaeth â chynnydd cymesur mwy o bobl 65 oed a hŷn.

Mae'r awdurdod, gan ddefnyddio system amcanestyniad anghenion gofal cymdeithasol ar y we Daffodil a ddatblygwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn amcangyfrif bod 2,650 o oedolion ag anableddau dysgu'n byw yn y fwrdeistref sirol. Ceir 522 o oedolion ag anableddau dysgu y mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol ohonynt. Ceir 47 o bobl ag anabledd dysgu sy'n 65 oed neu'n hŷn y nodir eu bod yn derbyn gwasanaethau. Ym mis Medi 2015, o'r 522 o bobl yr oedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol ohonynt, roedd 455 yn 'achosion gweithredol', sef agored i reolwr achos. Disgrifiwyd 67 o achosion fel 'adolygiad yn unig neu agored i adolygiad'. Nid oedd unrhyw achosion wedi'u cau ac roedd 47 o achosion yn aros i gael eu neilltuo.

Mae'r awdurdod lleol yn amcangyfrif mai £24,597 oedd ei wariant cyfartalog fesul unigolyn y flwyddyn ar bobl ag anableddau dysgu a dderbyniodd wasanaeth yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

Y Bwrdd Iechyd

Darperir gwasanaethau anabledd dysgu iechyd cymunedol ym Mhen-y-bont ar Ogwr trwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Ceir tîm iechyd amlddisgyblaeth sy'n cynnwys arweinydd y tîm iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith, rheolwyr gofal nyrsio, ffisiotherapyddion a thechnegwyr ffisiotherapi, seicolegydd clinigol ac ymarferwr seicoleg arbenigol, therapyddion galwedigaethau a thechnegydd therapi galwedigaethol, pum nyrs gymuned, seiciatrydd ymgynghorol, a meddyg arbenigol (un sesiwn yr wythnos). Mae'r tîm iechyd wedi'i gyd-leoli â staff yr awdurdod lleol i ffurfio'r tîm anabledd dysgu cymunedol. Mae gan y tîm fynediad hefyd at ddeietegwyr anabledd dysgu a Thîm Ymddygiad Arbenigol yn ôl yr angen. Mae'r gyfarwyddiaeth anableddau dysgu ac iechyd meddwl newydd uno'n un uned o fewn y bwrdd iechyd. Roedd strwythur dros dro ar waith tra bydd gwaith ad-drefnu ac ailstrwythuro mwy o'r uned yn cael ei gyflawni.

Crynodeb o Ganfyddiadau – Yr Awdurdod Lleol

- 1.1. Roedd ymwybyddiaeth o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlwg trwy holl waith yr awdurdod. Comisiynodd yr awdurdod lleol asesiad allanol gan Alder Consultants ac mae wedi gwneud defnydd sylweddol o'r canfyddiadau i fapio angen ac i aiddylunio a datblygu gwasanaethau. Hefyd, defnyddiodd y gwaith hwn i nodi arbedion ac i siapio ei strwythur i weithio yn y gymuned a darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Goruchwyliwyd hyn gan brosiect datblygu gwasanaeth anabledd dysgu'r awdurdod lleol a sefydlwyd yn 2012.
- 1.2. Ceir enghreifftiau o waith da, gan gynnwys datblygiad a gweithrediad 'model datblygu' a ddefnyddir o ran llety, cyfleoedd dydd a chyfleoedd sgiliau gwaith. Ceir gwaith partneriaeth da gyda darparwyr sy'n arwain at hyblygrwydd i gyflawni canlyniadau ar gyfer pobl unigol. Mae gwaith partneriaeth wedi cynnwys gofyn am safbwyntiau pobl ar ansawdd gwasanaethau a'r newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth o wasanaethau. Roedd tystiolaeth gref o ymrwymiad yr awdurdod lleol i glywed llais pobl a'u gofalwyr. Mae staff wedi dangos arweinyddiaeth dda wrth gefnogi pobl i siarad drostynt eu hunain trwy ddefnyddio contract ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth a hunan-eiriolaeth gyda Phobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr. Fe'n hysbyswyd gan bobl y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad bod Pobl yn Gyntaf yn adnabyddus iawn yn y fwrdeistref ac yn weithredol iawn. Roedd y sefydliad wedi estyn allan i bobl gan ddefnyddio cyfleoedd dydd i hwyluso sesiynau 'dweud eich dweud' rheolaidd a chynorthwyo pobl gyda materion unigol. Fe'i defnyddiwyd hefyd i annog pobl i fynegi eu barn, i gymryd rhan, ac i gyfrannu at y gwaith o gynllunio gofal a chymorth.
- 1.3. Er bod gan yr awdurdod lleol waith partneriaeth da gyda darparwyr, mae'n cydnabod bod angen cryfhau ei waith partneriaeth gyda'r trydydd sector er mwyn bwrw ymlaen ag aifodelu gwasanaethau a dulliau sydd eisoes ar y gweill.

- 1.4. Canfu'r arolygwyr fod pobl sy'n gweithio yn yr awdurdod lleol yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn dangos gwerthoedd cadarnhaol cryf wrth drafod eu gwaith. Roedd pobl ag anableddau dysgu a gofalwyr a siaradodd â'r arolygwyr yn gadarnhaol am eu profiadau o dderbyn gofal a chymorth.
- 1.5. Er bod y sampl achosion a archwiliwyd gan arolygwyr yn fach, roedd yn cynnig tystiolaeth o asesu da, ac roedd rhai enghreifftiau o arfer rhagorol o ran cynlluniau gofal wedi'u teilwra neu eu haddasu'n ofalus i ddiwallu anghenion unigol cymhleth. Fodd bynnag, nid oedd rhai cynlluniau'n cynnwys manylion penodol o sut y gellid hybu datblygiad personol ac annibyniaeth i wella canlyniadau i bobl unigol. Bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod egwyddorion y dull datblygu y mae'n ei hyrwyddo yn cael eu rhoi ar waith yn gyson mewn cynlluniau gofal a chymorth.
- 1.6. Roedd gwaith sicrhau ansawdd ffeiliau achos yn annigonol ac nid oedd unrhyw adrodd ar berfformiad ar waith; nid oedd gwaith goruchwyllo wedi cael ei gyflawni ers cryn amser ar gyfer dau aelod o staff a oedd yn gyfrifol am achosion cymhleth. Mae polisi goruchwyliaeth diwygiedig yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, ond mae angen ei roi ar waith yn effeithiol nawr. Nid oedd dau achos wedi'u cofnodi'n ddigonol i'r arolygwyr benderfynu pa un a oedd camau diogelu wedi'u cymryd mewn perthynas ag atgyfeiriad posibl am gam-drin ac asesiad o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Dylid nodi bod y sampl o achosion a archwiliwyd yn gymharol fach a bod y maes i'w wella yng nghyd-destun gwaith rheoli gofal cyffredinol dda. Dylai'r awdurdod lleol gadw ei drefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith achosion, gan gynnwys rheoli ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, o dan adolygiad agos a sicrhau bod trefniadau llywodraethu'n ddigonol.
- 1.7. Roedd trefniadau gweithio cyffredinol dda rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar y rheng flaen; fodd bynnag, ar lefel uwch, nid yw'r model gweithredu timau ar y cyd wedi datblygu ac mae'n bosibl bod cyfleoedd ar gyfer datblygu mentrau cyfunol wedi cael eu colli – er enghraifft, gwerthuso ymyriad iechyd yn hytrach na gwerthuso ymyriadau iechyd a gofal

cymdeithasol ar adeg cau achos. Ailstrwythurwyd trefn reoli'r bwrdd iechyd yn ddiweddar ac unwyd y cyfarwyddiaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl, a allai gynnig cyfleoedd i gadarnhau a gweithredu'r model gweithredu timau ar y cyd.

- 1.8. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynegi ymrwymiad cryf i waith partneriaeth ar gyfer datblygiadau lleol a Menter Gydweithredol Bae'r Gorllewin, ac mae wedi ymrwymo i ddatblygu gwaith ar y cyd i sicrhau gwelliannau i ganlyniadau i bobl yn y fwrdeistref.

- 1.9. Mae'r broses o ailfodelu gwasanaethau a gweddnewid y dull o ddarparu gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu'n uchelgeisiol ac yn gofyn am adnoddau sylweddol o ran staff allweddol. Mae llawer o gynnydd wedi ei wneud, ond bydd yr awdurdod lleol eisiau sicrhau ei hun nad yw ei fusnes craidd da o weithio gyda phobl yn cael ei effeithio'n ormodol gan y gofynion a wneir o'i gapasiti. Bydd hyn yn orfodol er mwyn cyflawni datblygiadau lleol a rhanbarthol sy'n ofynnol ac yn ddymunol.

Crynodeb o ganfyddiadau – Y Bwrdd Iechyd

- 1.10. Ceir enghreifftiau da o sut y mae'r tîm iechyd yn hyrwyddo gwasanaethau iechyd ataliol i bobl ag anableddau dysgu. Mae cynllunio a chomisiynu ar y cyd yn dechrau digwydd ar lefel fwy strategol gyda'r nod o wella gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, nid oedd y bwrdd iechyd yn casglu data nac yn monitro anghenion y boblogaeth anableded dysgu yn ffurfiol. Roedd hyn, ynghyd â'r ffaith fod y gwasanaeth yng nghanol proses ailstrwythuro fawr, yn golygu nad oedd y sefydlogrwydd ar waith eto i ddatblygu gwasanaethau iechyd yn rhagweithiol i ymateb i'r heriau a wynebir gan y gwasanaeth.
- 1.11. Yn gyffredinol, mae staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor, cymorth, asesiadau a chynlluniau gofal i bobl ag anableddau dysgu. Gwelodd yr arolygwyr enghreifftiau o ganlyniadau da i bobl ag anableddau dysgu. Nid yw'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi'n effeithiol gan systemau TG addas a rennir, sy'n golygu nad oes golwg gyffredinol ar anghenion unigolyn ar gael.
- 1.12. Canfu'r arolygwyr enghreifftiau da o wasanaethau a oedd wedi'u cynllunio o amgylch anghenion unigol pobl. Mynegodd staff iechyd uwch ymrwymiad i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau ymhellach yn y maes fel y gallai pobl fyw'n agosach at eu cartrefi. Fodd bynnag, mae staff yn wynebu heriau parhaus o ran diwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu sydd ar y llwybrau iechyd meddwl, fforensig, pontio a gofal eilaidd. Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod cynlluniau eglur ar waith i fynd i'r afael â hyn. Canfu'r arolygwyr bod angen gwella'r cyfathrebiad rhwng staff rheoli'r bwrdd iechyd a staff rheng flaen hefyd.
- 1.13. Er bod enghreifftiau da o weithio ar y cyd, nid oedd hyn wedi'i gefnogi gan weledigaeth eglur ar gyfer gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu. Gan fod staff uwch wedi cael eu hailstrwythuro'n ddiweddar, ni allai'r arolygwyr fod yn sicr bod y sefydlogrwydd a'r strwythur ar waith gan y gyfarwyddiaeth i bennu cyfeiriad, gweledigaeth a strategaeth eglur ar gyfer gwasanaethau

iechyd anabledd dysgu. Mae angen i'r bwrdd iechyd ymgysylltu â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn ogystal â staff i bennu cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol.

Argymhellion – Yr Awdurdod Lleol

- 2.1. Dylai'r awdurdod lleol hwyluso ei gynllun ar gyfer cryfhau trefniadau partneriaeth gyda'r trydydd sector er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o ailfodelu gwasanaethau a dulliau sydd eisoes ar y gweill.
- 2.2. Dylai'r awdurdod lleol adolygu ei ddefnydd o'r dull datblygol o gynllunio gofal gan sicrhau bod cynlluniau'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cynnwys camau penodol i sicrhau cymaint o ddatblygiad, twf ac annibyniaeth â phosibl.
- 2.3. Dylai'r awdurdod lleol archwilio'r arfer goruchwylio yn y tîm anabledd dysgu, rhoi'r polisi goruchwylio diwygiedig ar waith, a monitro effeithiolrwydd ar draws pob tîm.
- 2.4. Dylai'r awdurdod lleol fonitro effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Dylid paratoi cynllun gweithredu ysgrifenedig ar gyfer rheoli'r rhestr aros ar gyfer awdurdodiadau, gan gynnwys y defnydd o offeryn blaenoriaethu.
- 2.5. Dylai'r awdurdod lleol gytuno ar fodel gweithredu a dyddiad cyflwyno model gweithredu tîm anabledd dysgu gyda'r bwrdd iechyd er mwyn cyflwyno dull integredig sy'n adeiladu ar lwyddiant gwaith rheng flaen ar y cyd.

Argymhellion – Y Bwrdd Iechyd

- 2.6. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cynllunio adnoddau ac yn blaenoriaethu; yn datblygu swyddogaethau, cyfrifoldebau a modelau darparu eglur; ac yn rheoli perfformiad a gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu – yn benodol, bod y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau gwasanaeth eraill yn cynnwys blaenoriaethau a thargedau eglur y gellir eu monitro fel y gellir mesur cynnydd o ran cyflawni gwelliannau.
- 2.7. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau'n amlinellu sut y byddant yn gwella ac yn adeiladu ar:
- Lwybrau gydag iechyd meddwl, pontio, gofal eilaidd a fforenseg
 - Gwasanaethau ataliol a swyddogaethau cyswllt iechyd
- 2.8. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun ar waith o ran sut y gellir datblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol.
- 2.9. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses eglur ar waith i dimau cymunedol hysbysu am bryderon diogelu drwy'r bwrdd iechyd fel y gellir monitro pryderon a themâu.
- 2.10. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff ar y rheng flaen yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u hymgysylltu â gweledigaeth y bwrdd iechyd trwy wella cyfathrebiad a llif gwybodaeth.
- 2.11. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau rheoli cofnodion ar gyfer staff iechyd yn addas i'r diben ac yn cefnogi staff i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol, gyda'r nod o ddatblygu system rheoli cofnodion ar y cyd â'r awdurdod lleol.
- 2.12. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ogystal â staff wrth bennu'r weledigaeth a chyfeiriad y gwasanaeth.

Canfyddiadau – Yr Awdurdod Lleol

Cwestiwn Allweddol 1

Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn deall yr angen am ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys cymorth i ofalwyr a datblygiad gwasanaethau ataliol, yn ei ardal?

- 3.1. Mae pobl yn cael help sydd wedi'i gydgyssylltu'n dda gan y gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid ac sy'n gwneud synnwyr iddyn nhw. Mae gan bobl bresenoldeb yn y gymuned ac mae'r awdurdod lleol wedi hybu a darparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- 3.2. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu rhaglen weddnewid, gan ailfodelu gwasanaethau, gan gynnwys galluogi rhai pobl i symud o ofal a reolir a chynnig mynediad at ofal na reolir fel dewis amgen, datblygu cyfleoedd dydd, a menter gymunedol. Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau'r gwaith o siapio'r arfer yn gyntaf ac yna mae'n bwriadu ailgynllunio strwythurau sefydliadol i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau yn y dyfodol. Bydd Alder Advice, a gomisiynwyd yn rhanbarthol trwy arian cydweithredu, yn hwyluso'r gwaith datblygu hwn, sydd wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2016. Y camau nesaf i'r awdurdod lleol wireddu'r weledigaeth fydd rhoi cynllun cyflawni ar waith. Dylai'r cynllun hwn gynnwys datblygu amserlen ar gyfer cwblhau gwaith paratoi i'w wneud a chyflwyno model gweithredu'r tîm anabledd dysgu ar y cyd a'r tîm pontio. Mae angen dylunio mecanweithiau nawr i werthuso effaith newid a chanlyniadau i bobl ag anableddau dysgu, er enghraifft o ran swyddogaeth y cydgysylltwyr cymunedol lleol.

- 3.3. Rhoddodd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr a darparwyr adborth cadarnhaol ar broffesiynoldeb a gwaith ar y cyd yn fewnol o fewn timau ac adrannau'r awdurdod lleol ac yn allanol gydag eraill fel darparwyr, gwasanaethau eirioli a staff iechyd.

- 3.4. Gwelodd yr arolygwyr frwdfrydedd a gwerthoedd cadarnhaol cryf ymhlith yr holl staff yn ystod yr arolygiad. Roedd y priodweddau hyn yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl trwy gynlluniau gweddnewid yr awdurdod.
- 3.5. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn comisiynu tri darparwr annibynnol i ddarparu gwasanaethau byw â chymorth i 100 o bobl. Mae'r bartneriaeth wedi arwain at gyd-adolygiad o drefniadau staffio a chymorth wedi'i dargedu i alluogi pobl i symud i lefelau is o gymorth lle bo hynny'n bosibl. Sicrhawyd arbedion. Caiff y pwysigrwydd o sicrhau tenantiaeth 'go iawn' i bobl ag anableddau dysgu ei gydnabod a'i atgyfnerthu gan yr awdurdod drwy'r safonau yn y fanyleb gwasanaeth newydd yn yr ymarfer aildendro presennol. Mae rheolwyr gofal yn defnyddio proses 'symud cartref' i gynorthwyo pobl i ymgysylltu'n llawn â chyfnod nesaf eu bywydau.
- 3.6. Mae gwaith partneriaeth yng nghyswllt gweithgareddau dydd wedi arwain at gydweithio rhwng darparwyr, gan ymateb yn gadarnhaol i anogaeth yr awdurdod lleol i weithio'n hyblyg. Roedd enghreifftiau lle mae darparwyr wedi gwneud trefniadau i ddarparu gofal a thrafnidiaeth ar y cyd i bobl sy'n dymuno mynychu grwpiau cymunedol newydd. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn cynnig dewis arall yn hytrach na darparu gweithgareddau ar wahân ar gyfer unigolyn yn ei gartref ei hun. Mae hyn wedi arwain at arbedion cost i ddarparwyr unigol a'r cyngor a hyblygrwydd i bobl nad ydynt yn dymuno mynychu canolfan ddydd fwy draddodiadol mwyach. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn ymwybodol y gallai'r broses dendro ar gyfer contractau newydd sydd ar fin cael ei chynnal yn arwain at rai peryglon i'r trefniadau cydweithredu hyn. Roedd y rhaglen weddnewid yn cynnwys nod o annog aelodau'r gymuned ehangach a gwirfoddolwyr i ymuno â'r grwpiau gweithgareddau anabledd dysgu newydd. Mae hyn wedi bod yn anodd a bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried gwahanol ddulliau i gyflawni ei uchelgais o wasanaethau integredig cymunedol. Mae cyfleoedd dydd yn cynnwys canolfannau dydd traddodiadol sy'n cynnig cydbwysedd rhwng galluogi pobl i fynegi dewis, ymlacio, a gweithgareddau llai strwythuredig, gydag ymweliadau a sesiynau blasu yn y grwpiau cymunedol newydd. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y bydd angen iddo, trwy waith ei

gydgysylltwyr cymunedol lleol newydd, ddatblygu partneriaethau gyda'r trydydd sector, y mae'n bwriadu eu cychwyn yn dilyn gweithdy wedi'i drefnu.

- 3.7. Mae cynllun corfforaethol yr awdurdod lleol yn cyflwyno ei flaenoriaethau gwella, sef 'gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl agored i niwed aros yn annibynnol' a 'gweithio gyda'n gilydd i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau', ac roedd y rhain yn amlwg trwy gydol y cynlluniau anabledd dysgu a'r drafodaeth a gafwyd yn rhan o'r arolygiad. Gwnaed cynnydd da yn erbyn rhai amcanion yng nghynllun comisiynu anabledd dysgu 2014-16 yr awdurdod lleol, a dylai'r awdurdod lleol fynd ati nawr i werthuso effeithiolrwydd y strategaeth. Er enghraifft, aethpwyd i'r afael â'r flaenoriaeth o 'ddatblygu rhwydweithiau a systemau cymorth cymunedol' trwy gyflwyno cydgysylltwyr cymuned lleol, ac mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod rhaid iddo werthuso nawr llwyddiant y model hwn o fynediad i bobl ag anableddau dysgu, yn enwedig y rhai sydd wedi symud o ofal a reolir i ofal na reolir.
- 3.8. Mae angen rhoi blaenoriaethau eraill a nodwyd yn y cynllun comisiynu ar waith yn fwy penodol, er enghraifft y 'dull datblygu'. Mae'r awdurdod lleol yn mabwysiadu'r term hwn i gynnig cyfleoedd ar gyfer mwy o annibyniaeth trwy ailgynllunio a datblygu gwasanaethau neu gynlluniau gofal a chymorth unigol. Yn gyffredinol, roedd y dull datblygu wedi'i ymsefydlu yn y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth: canfu'r arolygwyr ddull datblygu o ran llety a gwasanaethau ac agwedd gadarnhaol at gymryd risgiau. Fodd bynnag, gan fod yr awdurdod lleol yn bwriadu i'r dull datblygu hwn gyrraedd ymhellach i bobl unigol, y camau nesaf fydd i rai o'r nodau cynnal a chadw a welwyd mewn cofnodion achos unigol gael eu disodli gan nodau CAMPUS. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cynyddu annibyniaeth lle bynnag y bo hynny'n bosibl, waeth pa mor fach y gallai'r cynnydd fod. Dywedodd rhai pobl yn defnyddio'r drafodaeth 'dweud eich dweud' yr hoffent fod yn llai dibynnol ar wasanaethau. Dywedodd pobl y byddai angen mwy o gefnogaeth arnynt gan y cyngor 'i fod yn fwy annibynnol', 'i gael allan yn yr awyr agored', 'i ddefnyddio hyfforddiant teithio', ac i fynychu gwasanaethau sydd 'ar gyfer pawb yn y gymuned, e.e. chwaraeon'.

- 3.9. Mae cyfleoedd gwaith yn bodoli ym mhrosiectau B'Leaf a Wood'B, sydd wedi datblygu a symud i mewn i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Fe'n hysbyswyd gan rai pobl bod gan eu ffrindiau waith cyflogedig a dywedasant yr hoffent brofiad gwaith neu waith cyflogedig. Roedd staff yn ymwybodol bod heriau o ran datblygu sgiliau pobl, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn ddibynnol ar drafnidiaeth gymunedol ac nad yw'r ganolfan sgiliau newydd ar lwybr bws. Gallai'r awdurdod lleol ddefnyddio'r adolygiad o'r cytundeb lefel gwasanaeth sydd ar fin cael ei gynnal gydag asiantaeth gyflogaeth â chymorth fel cyfle i ailwampio ei ddull o ddatblygu sgiliau teithio annibynnol pobl.
- 3.10. Mae ailfodelu gwasanaethau anableddau dysgu wedi lleihau costau: £947,000 yn 2014/15 a £625,000 rhagweladwy yn 2015/16. Nid oedd prosiectau eraill fel defnyddio'r tîm 'asiant newid' newydd i adolygu pecynnau gofal i sicrhau eu bod yn darparu ansawdd da am y pris gorau wedi arwain at yr arbedion a fwriadwyd eto. Fodd bynnag, roedd gwaith y tîm hwn yn cyfrannu at newid y diwylliant yn barod ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ochr yn ochr â'r newid sefydliadol sydd eisoes ar y gweill. Nod yr awdurdod lleol yw i'r holl staff gynyddu eu dealltwriaeth o'r 'hyn sydd o bwys' ac angen unigol yn hytrach na chynnig dewislen o wasanaethau rhagnodedig.
- 3.11. Mae cynlluniau'r tîm anabledd dysgu a welwyd gan yr arolygwyr yn nodi camau i ymateb i'r cyfleoedd a amlygwyd gan adroddiad Alder Advice, er enghraifft cynlluniau mapio a chynlluniau camau wrth gefn i bobl sydd mewn perygl o golli eu llety. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod camau wedi cario drosodd o'r llynedd i'r flwyddyn ariannol hon ac nad ydynt wedi cael eu cymryd yn gyson – er enghraifft, nid oedd profformas arfaethedig wedi cael eu cwblhau a'u hatodi i ffeiliau achos.
- 3.12. Mae'r awdurdod lleol yn rhan o Fenter Gydwethredol Bae'r Gorllewin, a ddatblygodd fodel pontio rhanbarthol. Er bod y model wedi cael ei gynnig a briff wedi'i baratoi ar gyfer y prosiect, bwriedir nawr i grwpiau gorchwyl yr awdurdod lleol weithio gyda meysydd iechyd ac addysg i fwrw ymlaen â sefydlu tîm

amlasiantaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd angen i'r awdurdod lleol ddatblygu ei waith os yw'r model yn mynd i fod yn barod i weithredu, fel yr awgrymwyd, o fis Gorffennaf 2016. Bydd hyn yn hanfodol i gynorthwyo'r 46 o blant a nodwyd rhwng 14 a 18 oed sydd ag anabledd dysgu. Dywedwyd bod cyd-leoli'r tîm anabledd plant a'r tîm anabledd dysgu oedolion wedi cynyddu gwaith ar y cyd rhwng staff sy'n gwneud gwaith pontio.

3.13. Dywedwyd gan rai teuluoedd a staff bod colegau addysg bellach wedi canolbwyntio ar drefniadau ar gyfer pobl ag anableddau corfforol yn hytrach nag anableddau dysgu. Dylai'r awdurdod lleol ystyried gwneud y defnydd mwyaf posibl o'i bartner addysg ei hun i gynyddu ymgysylltiad â cholegau addysg bellach, a chyfleoedd ynddynt, ar gyfer oedolion sy'n dechrau'r cyfnod pontio ac yn symud ymlaen trwy lwybr gyrfaoedd.

3.14. Mae'r awdurdod lleol wedi comisiynu Tros Gynnal Plant i gynorthwyo plant ag anableddau drwy'r cyfnod pontio. Defnyddiwyd Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr hefyd. Ceir fforwm rhieni gweithredol, ond mae'r aelodau'n grŵp hirsefydlog, ac awgrymwyd i'r arolygwyr y gallai fod budd o rwydwaith newydd i rieni sydd ar fin dechrau'r cyfnod pontio.

3.15. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o achosion o bontio a allai ddigwydd yn ddiweddarach mewn bywyd, er enghraifft y bobl sy'n byw gyda rhieni neu aelodau eraill o'r teulu sy'n hŷn na 50 oed neu'n cael eu pen-blwydd yn 50 oed yn ystod y pum mlynedd nesaf y gallai fod angen gwahanol lefel o gymorth arnynt yn y dyfodol. Mae'r ymarfer mapio hwn yn hysbysu ei strategaeth llety.

3.16. Mae gan yr awdurdod lleol amrywiaeth o fecanweithiau i sicrhau ei fod yn casglu safbwyntiau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Gwelwyd amrywiaeth o ddogfennau yn y gyfres 'fy safbwyntiau i ar Ben-y-bont ar Ogwr', gan gynnwys 'mynd i mewn i'r ysbyty' a 'fy rheolwr gofal'. Cyfeiriodd staff, pobl a gofalwyr yn aml at y dull 'dweud eich dweud' o siarad â phobl am eu safbwyntiau. Asesodd yr awdurdod lleol ei ailfodelu o wasanaethau dydd fel dull mwy 'ymgynghorol' yn hytrach na chyd-gynhyrchu. Fodd bynnag, mae wedi sicrhau bod pobl ag

anableddau dysgu yn cael eu cynnwys mewn ymarferion aildendro, recriwtio staff a grwpiau tenantiaid byw â chymorth.

3.17. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr un o'r cyfrannau isaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac nid oes fawr o alw am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r angen i godi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg ymhellach ymhlith staff – mae gwaith mapio effaith ar y gweill. Cynigir cyrsiau hyfforddi ond nid yw'r niferoedd sy'n manteisio arnynt yn uchel. Ceir mwy o alw am ieithoedd eraill a ffyrdd eraill o gyfathrebu (laith Arwyddion Prydain, Makaton, Braille ac ati), ac mae cyfieithwyr ar y pryd a staff hyfforddedig ar gael. Mae'r rheidrwydd i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion cyfathrebu pobl ag anableddau dysgu wedi'i gynnwys mewn gofynion tendro a chontractau.

Cwestiwn Allweddol 2

Pa mor effeithiol yw'r awdurdod lleol o ran darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth, asesiadau a chynllunio gofal sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac sy'n parchu pobl ag anableddau dysgu fel dinasyddion llawn, sy'n gyfartal o ran statws a gwerth â dinasyddion eraill o'r un oed?

- 4.1. Archwiliodd yr arolygwyr 20 o ffeiliau achos gan gynnal archwiliad manwl dilynol o brofiadau wyth o bobl o'r sampl hwnnw. Ystyriwyd y dystiolaeth o'r gweithgarwch hwn ochr yn ochr â gwybodaeth am berfformiad a thystiolaeth o gyfweiliadau a dogfennau.
- 4.2. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr awdurdod lleol yn gwneud yn dda ar y cyfan o ran sicrhau bod pobl yn gwybod ac yn deall pa gyfleoedd gofal a chymorth sydd ar gael ac yn cael help sydd wedi'i gynllunio ar sail eu hamgylchiadau unigol.
- 4.3. Mae'r awdurdod lleol yn ymateb i oblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac wedi sicrhau bod mynediad rhwydd at wybodaeth, cyngor a chymorth. Dywed darparwyr eu bod yn cyfathrebu'n dda â'r awdurdod. Dywed pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr eu bod yn cael mynediad effeithiol at wybodaeth a chynngor drwy'r gwasanaeth dyletswydd a ddarperir yn uniongyrchol gan y tîm anabledd dysgu, er bod y pwynt mynediad sengl ar gael iddynt hefyd. Derbyniodd yr arolygwyr sylwadau cadarnhaol o ran y cymorth a roddir gan reolwyr gofal ac, er gwaethaf rhai sylwadau am y ffaith fod y rheolwr gofal yn newid yn aml, roedd mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth yn dda.
- 4.4. Ceir rhywfaint o le i wella o ran cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod negeseuon yn eglur. Nododd nifer o bobl ag anableddau dysgu a ddefnyddiodd y grŵp 'dweud eich dweud' rywfaint o anghysondeb o ran ansawdd y wybodaeth yr oeddent yn ei derbyn gan y cyngor a pha un a oeddent yn gallu ei deall. Nid oedd rhai pobl yn gwybod sut i gael gwybodaeth gan gyngor Pen-y-bont ar Ogwr er iddynt

ddweud y byddent yn defnyddio Pobl yn Gyntaf neu eu staff cyflogedig i gael mynediad at wybodaeth. Roedd nifer fach o bobl yn ansicr a allent ddychwelyd i ganolfan ddydd draddodiadol ar ôl cael cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau blas ar grwpiau cymunedol newydd.

- 4.5. Mae'r awdurdod lleol wedi ad-drefnu trefniadau staff a datblygu cydgysylltwyr cymunedol newydd i ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu gael mynediad at wasanaethau cyffredinol yn y gymuned. Mae'r cydgysylltydd yn defnyddio meddygfa deulu ar gyfer sesiwn galw heibio ar hyn o bryd, ac wrth hysbysebu swyddogaeth y cydgysylltydd, mae'n debyg y bydd hyn yn cynyddu mynediad i holl aelodau'r gymuned, yn enwedig pan fydd yr awdurdod lleol yn cyflwyno ei gynlluniau i ehangu'r sesiynau galw heibio mewn meddygfeydd eraill. Aseswyd bod tua 40 o achosion yn addas i'w cloi a'u hailgyfeirio at y cydgysylltydd cymunedol lleol. Bydd angen i'r awdurdod fonitro i ba raddau y mae pobl ag anableddau dysgu y mae eu hachosion wedi cael eu cloi i ofal a reolir yn cysylltu. Bydd angen rhoi ystyriaeth i gapasiti'r cydgysylltydd cymunedol lleol pan fydd ymholiadau, cyfeiriadau a chymorth i aelodau'r gymuned gyffredinol yn cynyddu wrth i'r gwasanaeth ddod yn fwy sefydledig.
- 4.6. Mae'r awdurdod lleol yn siapio diwylliant y sefydliad i hyrwyddo ymatebion cadarnhaol i ofal a reolir traddodiadol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Trwy gyflwyno tîm 'asiant newid' rhyngddisgyblaeth, yn cynnwys dadansoddwr, cyfrifydd a dau reolwr achos, nod yr awdurdod lleol yw cynnig pecynnau o'r maint cywir. Mae'r broses hon yn cynnwys adolygiad o ansawdd a chost gofal a ddarperir gan wasanaethau a gomisiynwyd. Er nad yw arbedion a ragwelwyd o £300,000 eleni a £350,000 y flwyddyn nesaf wedi cael eu gwireddu, mae'r awdurdod lleol eisiau i'r hyn a ddysgir o'r profiad gael ei rannu ar draws y gwasanaeth. Mae eisiau i staff symud oddi wrth siarad am gymhwysedd i gael sgwrs 'yr hyn sydd o bwys' gyda phobl, sy'n datblygu ymateb a gyd-gynhyrchir i angen a aseswyd. Bydd cyllid corfforaethol i'r tîm 'asiant newid' yn cael ei adolygu ar ôl 18 mis.

- 4.7. Mae'r awdurdod lleol yn gofyn am adborth rheolaidd trwy arolygon o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a thrwy sesiynau 'dweud eich dweud' mewn canolfannau dydd. Bydd yr awdurdod lleol yn dymuno sicrhau bod cyfathrebiad i ofyn am adborth yn cael ei gydgyssylltu gan fod rhai pobl y siaradwyd â nhw wedi dweud iddynt dderbyn holiaduron o wahanol ffynonellau. Mae'r awdurdod lleol yn cofnodi canmoliaeth a nododd bod pum cwyn wedi cael eu datrys ar sail anffurfiol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Er nad oes taflen gwynion hawdd ei darllen, mae'r awdurdod lleol yn cynnig cymorth gan Bobl yn Gyntaf os oes angen. Byddai'r awdurdod lleol yn elwa o sicrhau bod cwynion a'u canlyniadau'n cael eu cofnodi'n gyson mewn nodiadau achos er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i staff ar ddyletswydd a bod profiadau pobl yn cael eu cofnodi. Mae swyddogion cwynion yn hysbysu eu hymwybyddiaeth o faterion diogelu trwy hyfforddiant a gwaith ar y cyd.
- 4.8. Roedd tystiolaeth eglur o'r ffaith fod gofalwyr yn cymryd rhan mewn prosesau asesu ac adolygu ar gyfer pobl ag anableddau dysgu mewn ffeiliau achos. Dywedodd gofalwyr fod asesiadau'n cael eu cynnig ond yn cael eu gwrthod, ac adlewyrchwyd hyn yn y ffeiliau achos a welwyd. Gwnaed cynigion o asesiadau gofalwyr hefyd yn rhan o'r llythyr blynyddol (a anfonwyd allan ddiwethaf ar 2 Mawrth 2015). Er gwaethaf hyn, dim ond 17.7% o asesiadau gofalwyr oedd wedi cael eu cynnal erbyn mis Hydref 2015.

Enghraifft Achos

Mae'r prif ofalwr yn dweud ei bod wedi addo i'w mam y byddai'n gofalu am ei chwaer ac mae'n bwriadu gwneud hynny cyn hired ag y mae'n gallu. Mae'n gwerthfawrogi'n fawr y cymorth a ddarperir trwy wasanaethau cymdeithasol i'w galluogi i wneud hyn. Mae'r asesiad gofalwyr yn sensitif i'w sefyllfa ac yn rhagweld anghenion y dyfodol.

- 4.9. Argymhellwyd Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr gan nifer o rieni fel ffynhonnell o wybodaeth a chymorth. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu partneriaethau gyda'r trydydd sector, ond nid yw camau cynllun 2014-15 y tîm i aelod o'r tîm anabledd dysgu gael ei nodi i gysylltu'n

uniongyrchol â'r ganolfan gofalwyr wedi cael eu cymryd eto. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ymgysylltu â gofalwyr am effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mynychu cyfarfodydd y fforwm gofalwyr, a datblygu'r strategaeth gofalwyr ranbarthol, a dylid ei ganmol nawr am sicrhau parhad a nodi'r cyswllt hwn.

4.10. Y Tîm Diogelu sy'n gyfrifol am amddiffyn oedolion sydd mewn perygl, ac mae'n cynorthwyo staff sy'n cydgysylltu'r ymateb i atgyfeiriad diogelu. Mae'r tîm hefyd yn rheoli proses y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, yn monitro contractau ac ansawdd, ac yn 'uwchgyfeirio pryderon mewn cartrefi gofal'. Dywedodd darparwyr fod llwybrau eglur ar gyfer atgyfeiriadau diogelu a'u bod yn rhan o'r broses ac yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd adolygu achosion cymhleth i rannu gwersi a ddysgwyd. Ceir hyder yn y broses ddiogelu; cyfeiriodd staff a rheolwyr at hyfforddiant diogelu rheolaidd ac roeddent yn ymddangos yn hyderus am eu cyfrifoldebau. Ceir cysylltiadau rhwng y Bwrdd Diogelu Oedolion ranbarthol, a gadeirir gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, y grŵp gweithredol yn yr awdurdod lleol hwn, a'r tîm diogelu. Mae'r tîm wedi cymryd argymhellion yn Adolygiad Jasmine – 'In Search of Accountability' – i ystyriaeth, gan ddatblygu dull monitro ansawdd a holiadur ar gyfer teuluoedd er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch gyda darparwyr yn brydlon. Caiff y broses o gasglu, gwerthuso a dadansoddi gwybodaeth ei rheoli trwy gronfa ddata risg.

4.11. Ar y cyfan, roedd gwybodaeth ddiogelu a welwyd yn dynodi yr ymateb i atgyfeiriadau yn briodol. Fodd bynnag, gwelwyd un achos lle nad oedd y cofnodion yn egluro'r ymateb i fater diogelu posibl. Roedd yn peri pryder nad oedd yr awdurdod lleol wedi ffonio'r gwasanaeth i wirio'r trefniadau diogelu neu wedi siarad â'r unigolyn a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth a hunan-adroddodd y pryder. Cyfeiriwyd hyn yn ôl at yr awdurdod lleol yn ystod yr arolygiad a derbyniwyd eglurhad dilynol pedair wythnos yn ddiweddarach. Mewn achos arall, ymgysylltwyd â gwasanaeth eirioli annibynnol o ran galluedd meddyliol i gynorthwyo'r broses o wneud y penderfyniadau gorau er lles unigolyn a oedd yn newid lleoliad, ac roedd eiriolwr wedi cymryd rhan i gynnig cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, ni nodwyd bod angen cais o dan y Trefniadau

Diogelu rhag Colli Rhyddid er gwaethaf dau atgyfeiriad amddiffyn oedolion agored i niwed a bod adolygiad wedi'i gynnal. Atgyfeiriwyd yr achos yn ôl i'r awdurdod lleol yn ystod yr arolygiad ac, yn dilyn ei her i'r darparwr, derbyniwyd atgyfeiriad tua phedair wythnos yn ddiweddarach.

4.12. Bu cynnydd sylweddol i geisiadau i awdurdodi'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dilyn dyfarniad 'Cheshire West' ym mis Mawrth 2014, a bennodd fod unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid os yw'n destun goruchwyliaeth a rheolaeth barhaus ac nad yw'n rhydd i adael. Derbyniodd yr awdurdod lleol 14 o geisiadau cyn y dyfarniad, ond mae hyn wedi cynyddu erbyn hyn i restr aros sy'n cynnwys cyfanswm o 385 o bobl ar adeg yr arolygiad. Roedd 174 o bobl ag anabledd dysgu yn defnyddio trefniadau byw â chymorth y mae angen i'r awdurdod wneud cais i'r llys gwarchod ar eu cyfer.

4.13. Nid oedd adroddiad ym mis Tachwedd 2015 i hysbysu'r Pwyllgor Goruchwyllo a Chraffu ar lechyd a Lles am waith a wnaed i ddiogelu pobl agored i niwed yn cynnwys manylion sut y bydd hyn neu'r gallu i gwblhau adolygiadau blynyddol o awdurdodiadau safonol a ganiatawyd eisoes yn cael eu rheoli, gan gynnwys y deg o bobl sy'n weddill sy'n defnyddio lleoliadau y tu allan i'r sir ac sydd angen adolygiad. Nid oedd y cynnig llafar i weithio drwy'r rhestr fesul safle yn awgrymu dull o flaenoriaethu'r ymateb a oedd yn seiliedig ar yr unigolyn, anghenion na risg. Efallai yr hoffai'r awdurdod lleol ystyried pa mor briodol yw ei ddull. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn rhagweithiol o ran hyfforddi 28 o aseswyr lles gorau, ac mae ganddo nod mwy hirdymor i bob gweithiwr cymdeithasol gael ei hyfforddi. Mae'r tîm diogelu wedi bod yn rhagweithiol o ran cysylltu â theuluoedd i'w hysbysu am gyfeiriadau newydd gan y crwner ynghylch pobl sy'n marw pan fyddant yn destun y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Darparwyd rhagor o wybodaeth a chymorth i'r rhai a ofynnodd am sicrwydd ynghylch y cyfeiriadau hyn.

4.14. Roedd adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan bobl a'u gofalwyr, darparwyr a gweithwyr proffesiynol yn dynodi gwaith da ar y cyd rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff penderfyniadau a gweithgarwch datblygu eu gwneud ar

wahân, ac ailadroddir hyn ar lefelau uwch yn y sefydliad, oherwydd newidiadau strwythurol a swyddi dros dro mae'n debyg. Dylai'r awdurdod lleol fwrw ymlaen â'r gwaith da a welwyd rhwng staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen trwy weithio i ddeall y gwahanol safbwyntiau o ran lefel a math y ddarpariaeth o wasanaeth integredig. Mae hyn yn cynnwys cydgysylltu achosion, atgyfeiriadau a neilltuadau, rheoli cofnodion, trefniadau safonau'r tîm a threfniadau llywodraethu er mwyn gwneud cynnydd o ran cyflwyno model gweithredu tîm ar y cyd. Bwriadwyd i adroddiad ar gynnydd Menter Gydweithredol Bae'r Gorllewin gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2016, ond mae'n ymddangos bod llawer i'w wneud i gyflawni hyn.

- 4.15. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol eu bod yn cael gwerthusiad blynyddol wedi'i ategu gan gyfleoedd da ar gyfer hyfforddiant a datblygiad. Mae amllder trefniadau dros dro a contractau dros dro sydd wedi deillio o ailfodelu'r gwasanaeth wedi effeithio ar allu'r buddsoddiad mewn staff i gyfrannu at gynnal gweithlu sefydlog medrus. Bydd yr awdurdod lleol yn dymuno sicrhau nad yw cynnydd i bobl sy'n ymgysylltu â rheolwyr gofal yn cael ei effeithio gan newidiadau aml, lle mae datblygu perthynas a chysylltiadau dilynol i fynd i'r afael â materion anodd yn hanfodol. Gwelwyd un enghraifft o unigolyn a gefnogwyd gan dri gweithiwr cymdeithasol mewn dwy flynedd ac a oedd yn rhagweld oedi posibl pellach o ran ailneilltuad gan fod 47 o achosion yn aros i gael eu hailneilltuo ar adeg yr arolygiad. Roedd cydweithio'r tîm yn cynorthwyo rhai pobl gan fod bylchau yn y berthynas rhwng pobl a rheolwyr gofal yn cael eu llenwi gan y nyrsys cymuned dan sylw. Bydd yr awdurdod lleol yn dymuno cynnal ansawdd gwaith rheoli gofal a brwdfrydedd eglur y staff trwy reoli unrhyw ansefydlogrwydd a allai godi yn sgil maint y newidiadau i'r gwasanaeth.
- 4.16. Caiff yr help y mae pobl yn ei gael ei gynllunio ar sail amgylchiadau ac anghenion unigol pobl. Siaradodd gweithwyr cymdeithasol yn wresog am eu cleientiaid ac roeddent yn eu hadnabod yn dda. Roedd yr asesiadau a'r adolygiadau a welwyd yn drylwyr ac yn sail i ofal wedi'i gydgysylltu'n dda.

Enghraifft Achos

Roedd cynllunio amlasiantaeth yn canolbwyntio ar ganlyniadau wrth i gynlluniau gofal o oedran ifanc gymryd i ystyriaeth canlyniadau unigol **A**. Gwnaed gwaith cynllunio mewn partneriaeth â rhieni ac **A** ar adegau priodol. Roedd tystiolaeth yn y cynlluniau o weithio cydweithredol ac integredig rhwng meysydd addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd y ddau riant yn teimlo eu bod yn gallu mynegi eu teimladau a'u dymuniadau ar gyfer cynllunio dyfodol hirdymor **A** trwy gydol y broses bontio. Er nad yw **A** yn gallu cyfathrebu'n llafar, cymerir safbwyntiau i ystyriaeth trwy ei gynnwys mewn adolygiadau lle gall rhieni, staff addysg a'r gweithiwr cymdeithasol ddehongli iaith y corff a mynegiant yr wyneb a defnyddio symbolau llun cyfyngedig. Trwy gydol y broses, roedd y rhieni'n teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys ac wedi derbyn gwybodaeth gywir a phrydlon i reoli disgwyliadau yn y dyfodol ac i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir sy'n diwallu anghenion **A**. Gwahoddwyd y rhieni ac **A** i fynychu'r holl adolygiadau ac roeddent yn teimlo y gwrandawyd arnynt, yn enwedig o ran y cynllun i fynychu'r Ganolfan Ddydd.

4.17. Roedd y ffeiliau achos a adolygwyd yn dangos bod pobl yn cyfrannu yn yr adolygiad o'u gofal, ac roedd arsylwadau yn ystod y gwaith maes yn nodi bod pobl ag anableddau dysgu'n cael eu hannog i gymryd rhan lawn mewn sgysiau a gweithgareddau. Roedd sensitifrwydd yn amlwg wrth gofnodi safbwyntiau pobl mewn cofnodion achos. Gwelwyd sylw i fanylion wrth ddisgrifio dymameg deuluol, gan sicrhau bod y geiriad yn dderbyniol ac yn cynrychioli safbwyntiau pobl ar eu teuluoedd yn gywir.

Enghraifft Achos

Roedd yr asesiadau a'r adolygiad yn disgrifio anghenion **B** yn gynhwysfawr ac yn sail dda ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwyd trwy becyn gofal a oedd wedi'i bersonoli ac wedi'i amrywio i gyd-fynd ag anghenion a chyfleoedd a oedd yn newid. Cymerwyd safbwyntiau **B** i ystyriaeth gan y gweithiwr cymdeithasol a staff y darparwyr, a ymdrechodd i ehangu profiad **B** ac annog newid cadarnhaol. Arsylwyd rhyngweithio cadarnhaol rhwng y gweithiwr cymdeithasol, y darparwr a **B**, wedi'i nodweddu gan ofal a pharch a dymuniad i sicrhau'r gorau i **B**, gan gynnwys anogaeth a her. Roedd pwyslais eglur ar sicrhau'r cyfleoedd bywyd gorau posibl, ar wella sgiliau a gweithrediad, ac ar ymateb i bersonoliaeth unigol **B** a pheidio â gadael i bethau barhau fel yr oeddent heb archwilio opsiynau eraill.

4.18. Gwelwyd asesiadau da, ynghyd â dogfennau ar gyfer adolygiadau a chynlluniau cymorth. Nid oedd rhai cynlluniau cymorth wedi'u hysgrifennu mewn iaith eglur – mae rheolwyr gofal eisoes wedi nodi hyn fel pryder ac wedi datblygu cynllun gofal rhwydd ei ddarllen ar ffurf drafft i gynyddu cyfranogiad, gan ddefnyddio'r gronfa ddata adnoddau gwybodaeth hygyrch iechyd a gofal cymdeithasol.

4.19. Roedd asesiadau'n cynnwys gwybodaeth fanwl ac yn adlewyrchu dull a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod dewisiadau, safbwyntiau ac opsiynau yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys mewn gofal a chymorth yn y dyfodol.

Enghraifft Achos

Mae gan **C** becyn cymorth amrywiol wedi'i addasu a'i amrywio i ddiwallu anghenion penodol **C**. Roedd **C** yn mynychu canolfan ddydd yn rheolaidd, a daeth yn anfodlon ac yn anodd ei drin yn ystod y prynhawn ac nid oedd yn fodlon mynd ar y bus mini i ddychwelyd adref. Gwnaed trefniadau i **C** gael ei dynnu allan o'r ganolfan ddydd bob diwrnod o amser cinio gan ei ddanfôn gartref yn syth ar ddiwedd y prynhawn. Roedd **C** yn mwynhau'r gweithgarwch un i un ac yn fwy bodlon.

- 4.20. Roedd yr achosion a welwyd yn dangos ymwybyddiaeth o risg a pharodrwydd i reoli risg mewn ffordd gadarnhaol, i roi mwy o gyfleoedd ac amrywiaeth o brofiadau i unigolion. Gwelwyd enghreifftiau o gynlluniau rheoli risg a oedd wedi'u llunio'n ofalus i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau neu ymddygiadau a oedd yn herio eraill.
- 4.21. Gwelwyd perthynas gadarnhaol a chydgyssylltiad da rhwng y rhai a oedd yn cynorthwyo pobl: er enghraifft, roedd staff mewn gwasanaethau llety cartref, canolfan ddydd ac iechyd arbenigol yn cydweithio'n dda yn gyffredinol, ac roedd cyflwyno dulliau cymorth ymddygiad personol mewn canolfan ddydd wedi arwain at ostyngiadau sylweddol i nifer yr achosion o ymddygiad heriol. Roedd enghreifftiau o ymateb cynnar i broblemau a chynlluniau i gynorthwyo sefydlogrwydd a newidiadau mwy hirdymor yn cael eu llunio'n rheolaidd rhwng adolygiadau wrth i amgylchiadau unigol newid. Roedd tystiolaeth mewn ffeiliau yn dangos ymdrechion i gynorthwyo cyfathrebiad a chyfranogiad fel pasbortau cyfathrebu a systemau cyfathrebu cyfnewid lluniau. Byddai'r mentrau cadarnhaol hyn yn elwa o gael eu hyrwyddo a'u gweithredu ymhellach ynghyd â'r systemau gwybodaeth goleuadau traffig i gefnogi proses derbyn i'r ysbyty.
- 4.22. Nododd yr arolygiad fod y tîm wedi dioddef rhywfaint o ansefydlogrwydd yn deillio o swyddi a threfniadau dros dro a ddaeth yn sgil yr ailfodelu a gwaith datblygu prosiect. Mae angen i'r awdurdod lleol adolygu ei drefniadau i fonitro ansawdd busnes craidd tra bydd y rhaglen ailfodelu'n parhau. Er enghraifft, nid oedd goruchwyliaeth wedi digwydd ar gyfer dau uwch reolwr gofal ers cryn amser. O'r cynlluniau gofal yr oedd yn amser eu hadolygu, roedd 76% wedi cael eu hadolygu, ac roedd 89% o gynlluniau gofal a thriniaeth wedi cael eu hadolygu. Nid oedd y cynllun ar gyfer rheoli asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a cheisiadau ac adnewyddiadau'r llys gwarchod yn gadarn. Mae'n ymddangos bod mecanweithiau sicrhau ansawdd blaenorol, er enghraifft archwilio ffeiliau achos, wedi dod i ben wrth i drefniadau dros dro yn deillio o'r ailfodelu gychwyn. Er bod y rhaglen newid yn uchelgeisiol, mae'n rhaid cefnogi busnes craidd hefyd.

Cwestiwn Allweddol 3

I ba raddau y mae'r trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethiad yn y bwrdd iechyd wedi darparu gweledigaeth eglur ar gyfer gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, gyda'r nod o wella canlyniadau, ac sydd â chefnogaeth a chyfranogiad partneriaid – gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a gofalwyr?

- 5.1. Ceir arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad hirhoedlog i helpu pobl ag anableddau dysgu i sicrhau eu hawliau ar bob lefel yn y gyfarwyddiaeth, wedi'i gefnogi ar lefelau corfforaethol a gwleidyddol.
- 5.2. Roedd ymwybyddiaeth dda o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a chaiff cynlluniau strategol eu datblygu i ymateb i'r amgylchedd polisi, deddfwriaethol ac ariannol sy'n newid, er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy. Mae'r awdurdod lleol yn nodi bod ei weledigaeth graidd yn arwain ei arfer ac mae hyn wedi'i seilio ar werthoedd nid cost: *'Gwneir gwelliannau yn gyntaf ac mae'r arbedion yn dilyn.'*
- 5.3. Darperir gwybodaeth ariannol yn rheolaidd a chaiff ei chyflwyno'n eglur. Cadarnhaodd staff cyllid ethos cadarnhaol gweithio gyda phobl gan atgyfnerthu pwyslais ar ddarparu gwasanaeth yn gyntaf ac yna rheolaeth ariannol. Roedd cydnabyddiaeth y bydd angen rhywfaint o ddatblygu sgiliau ymhlith rheolwyr timau i ddatganoli cyllidebau dirprwyedig ymhellach er mwyn bodloni'r gofynion yn yr amgylchedd ariannol presennol lle mae angen cynigion ar gyfer arbedion effeithlonrwydd. Hysbyswyd yr arolygwyr gan yr awdurdod lleol y rhagwelwyd arbediad o 6.45% o gyllideb anabledd dysgu net o £12.77 miliwn y flwyddyn nesaf, ac y bydd hyn yn destun trafodaethau pellach.
- 5.4. Mae'r awdurdod lleol yn wynebu pwysau tebyg i eraill yng Nghymru, ac mae wedi rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer arbedion rhagamcanol. Er enghraifft, mae'r tîm 'asiant newid' yn adolygu ansawdd a chostau gofal ac yn adolygu'r strwythur sefydliadol er mwyn sicrhau ei fod yn addasu gyda swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol wrth iddi newid. Bydd yr awdurdod lleol yn

crebachu 30% yn y dyfodol, yn defnyddio mwy o gontractau tymor sefydlog, ac yn lleihau'r defnydd o swyddi asiantaeth a gwag. Hefyd, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu parhau i ddefnyddio Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, pennaeth yr adran adnoddau dynol a'r mecanwaith cymeradwyo cyllid ar gyfer recriwtio, lle ystyrir pob swydd wag yng nghyd-destun gofyniad, addasiad a disodliad. Roedd tystiolaeth yn ystod yr arolygiad o ymwybyddiaeth wirioneddol o'r angen am newid llwyr i feddylfryd ochr yn ochr â manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a nodwyd yn ystod ac ers asesiad Alders. Sicrhawyd arbedion cost mawr eisoes trwy ad-drefnu gwasanaethau a mwy o effeithlonrwydd, fel yr adolygiad o'r gwasanaeth byw â chymorth mewnol a gynhaliwyd yn arwain at strwythur rheoli diwygiedig.

- 5.5. Hysbyswyd aelodau etholedig am ailfodelu'r gwasanaeth anabledd dysgu. Mynegwyd rhai pryderon nad oeddent yn gallu craffu ar waith Menter Gydweithredol Bae'r Gorllewin, ond roedd trefniadau effeithiol ar waith i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol friffio aelodau am y gwaith rhanbarthol hwn. Nododd adroddiad cwynion blynyddol yr awdurdod lleol ar gyfer 2014/15 y cynorthwywyd hawliau etholwyr gan 71 o bryderon aelodau a godwyd ar eu rhan. Nodwyd B'Leaf a Wood'B gan gynghorwyr fel enghreifftiau o brosiectau lle caiff dinasyddiaeth gyfartal ei hybu gan yr awdurdod. Amlygodd aelodau bwysigrwydd eu hymweliadau rota, ac roeddent yn teimlo y byddai penodi hyrwyddwr anabledd dysgu o blith aelodau etholedig o fudd.
- 5.6. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i weledigaeth sy'n esblygu tuag at ddinasyddiaeth go iawn gydag arbedion ariannol fel isgynnyrch. Cymerodd yr awdurdod lleol ran mewn sesiwn ddatblygu Menter Gydweithredol Bae'r Gorllewin i gynllunio sut y gall partneriaid gynorthwyo datblygiad mentrau cymdeithasol ar sail ranbarthol.
- 5.7. Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau ei ailfodelu ariannol trwy drosglwyddo asedau ar gyfer Wood'B a B'Leaf i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen Gymunedol gyda thâl lleoliad ar gyfer pawb sy'n mynychu a ffi rheoli yn cael ei dalu a ddylai leihau wrth iddynt ddod yn fwy sefydledig. Ni wireddwyd unrhyw

arbedion o'r prosiect hwn eto ond, dros amser, dylai ffynonellau cyllid o gyfleoedd grantiau loteri gynorthwyo'r gwasanaeth i fod yn gynaliadwy.

- 5.8. Mae Menter Gydweithredol Bae'r Gorllewin yn mynd i'r afael â'r amcan strategol o ddarparu gwasanaethau 'agosach at gartref'. Mae hyn yn golygu helpu pobl a allai fod yn byw y tu allan i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr symud yn ôl yn agosach at deulu a ffrindiau. Sefydlwyd un prosiect a bwriedir i un prosiect arall agor yn ystod gwanwyn 2016. Mae'r prosiectau hefyd wedi'u cynllunio i atal pobl rhag mynd i leoliadau y tu allan i'r sir. Mae prosiectau cydweithredol eraill yn cynnwys tîm ymddygiad arbenigol i wella canlyniadau i bobl ag anghenion mwy cymhleth. Nod Menter Gydweithredol Bae'r Gorllewin yw sicrhau mwy o gydgysylltiad ac arbedion effeithlonrwydd ar lefel ehangach rhwng cyrff GIG ac awdurdodau lleol, ond mae cynnydd gyda rhai prosiectau wedi bod yn gyfyngedig, fel modelau pontio a thimau ar y cyd. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eglur bod rhaid i weithrediad lleol fod yn briodol i ddiwallu anghenion lleol ac yn nodi'r enghraifft o addasu model arfaethedig y cydgysylltwyr cymunedol lleol i osgoi oediadau ac i sicrhau y byddai anghenion pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael eu diwallu.
- 5.9. Ar lefel strategol, mae'r cyngor yn ceisio cael perthynas gadarnhaol â maes iechyd, er y gall hyn fod yn anodd ar adegau. Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau wedi'i chydgysylltu'n dda iawn ar lefel achosion unigol ac wedi'i chefnogi gan y ffaith fod gwasanaethau arbenigol ar gael. Mae cynllun busnes y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol a lles ar gyfer 2015-16, 'Gweithio gyda'n Gilydd i Wella Bywydau', yn nodi ymrwymiad i sefydlu model gweithredol integredig ar gyfer y tîm cymorth cymunedol anabledd dysgu. Mae cynnydd o ran ei weithrediad yn araf. Mae newidiadau diweddar i strwythur rheoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIPABM) a'i benderfyniad i uno'r cyfarwyddiaethau anabledd dysgu ac iechyd meddwl wedi arwain at ddim amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw fodel ar y cyd. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu her i fwrw ymlaen â hyn.

- 5.10. Gofynnir am safbwyntiau ar ddatblygu a darparu gwasanaethau gan bobl yn uniongyrchol – wedi'u canoli gan Bobl yn Gyntaf a gofawyr drwy'r Fforwm Rhieni, a oedd yn gwbl ymwybodol o newidiadau cyfredol i wasanaethau. Ceir cyfarfodydd ymgynghori sefydledig a arweinir gan Bobl yn Gyntaf fel mater o drefn i dderbyn adborth am ansawdd gwasanaethau ac ymgynghoriadau wedi'u teilwra ar ddatblygiadau gwasanaeth fel newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau dydd. Cynhaliwyd ymgynghoriadau ar wasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth gan ddefnyddio gwahanol ddulliau yn ôl gallu'r bobl sy'n cael eu hymgyngori.
- 5.11. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gyffredinol dda o ran cyfathrebu ei weledigaeth a rheoli newid yn gydlynol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig arweinyddiaeth eglur ac mae'n amlwg. Nodwyd hyn yn aml, ac roedd staff a darparwyr yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth ac yn cael eu cynnwys. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau i gyfathrebu â staff, sy'n hysbysu am ddull agored a thryloyw. Mae'r cyfarfodydd 'newid y diwylliant' yn cynnig cyfleoedd misol tryloyw i siarad â holl reolwyr timau gwasanaethau oedolion am y datblygiadau ac arfer cyfredol. Gellid ehangu/ailadrodd y model hwn ar gyfer yr 'holl staff' neu ar draws y gwasanaeth gan fod y cyfarfodydd yn benodol i wasanaethau ar hyn o bryd, e.e. gwasanaethau dydd. Mae gan y staff gyfle yn y cyfarfod STEP i gyfarfod â rheolwr eu rheolwr llinell heb i'w rheolwr llinell fod yn bresennol. Bu rhywfaint o fân-anghysondeb pan gododd ddryswch ymhlith staff a oedd yn annog pobl i roi cynnig ar weithgareddau yn y gymuned neu sesiynau 'blas', a oedd yn meddwl yn anghywir na allai pobl a oedd wedi symud ddychwelyd i'w gwasanaeth dydd gwreiddiol. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod staff yn deall y weledigaeth a'r neges o ystyried faint o newid sydd wedi bod a'i gyflymder.
- 5.12. Mae'r cyngor yn dangos ymrwymiad eglur i weithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid statudol, ac mae darparwyr annibynnol lleol yn cymryd rhan agos mewn datblygiadau ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Fodd bynnag, er iddynt amlygu'r anhawster yn recriwtio staff gofal cymdeithasol lleol, dywedodd

darparwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau strategol i gynyddu capasiti staff gofal cymdeithasol i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen.

5.13. Cefnogir y weledigaeth esblygol hirdymor o'r datblygiad o wasanaethau gan y cyngor yn ei gyfanrwydd – o wasanaethau safonol canolog i wasanaethau datganoledig wedi'u teilwra mwy sydd â'r nod o 'normaleiddio' a'u model presennol o integreiddiad cymunedol. Mae'r awdurdod lleol yn rhagweld y bydd hyn yn datblygu i lai o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus, wrth i weithgareddau a gwasanaethau gael eu prynu'n uniongyrchol (neu eu sicrhau fel arall) gan sefydliadau cymunedol. Mae'r datblygiad hwn eisoes wedi arwain at ddatganoli gwasanaethau dydd a mwy o ddefnydd o weithgareddau cymunedol lleol; mae proses dendro ar y gweill i ad-drefnu gwasanaethau llety â chymorth. Mae rhai o'r newidiadau hyn, ynghyd â mwy o arbedion effeithlonrwydd, eisoes wedi sicrhau gostyngiadau sylweddol i gostau. Mae rhai cwestiynau, tensiynau a risgiau'n gysylltiedig â datblygiadau'r dyfodol; bydd angen bod yn ofalus i sicrhau bod rhanddeiliaid, gan gynnwys staff, yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses ac nad yw arfer da presennol yn cael ei roi mewn perygl. Ceir rhywfaint o fygythiad cyfredol i fusnes craidd y tîm gwaith cymdeithasol gyda thystiolaeth bod trosiant cynyddol, deiliadaeth ansicr, methiannau diweddar o ran rheoleidd-dra goruchwyliaeth broffesiynol, ac ansicrwydd ynghylch swyddogaeth a chyfansoddiad yn y dyfodol wedi cael effaith ar ansawdd y gwasanaeth.

5.14. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain grŵp staff cefnogol y mae'n hawdd mynd atynt. Roedd ymrwymiad i waith partneriaeth, ac roedd arweinyddiaeth a llywodraethu strategol yn gryf, er bod angen rhywfaint o sylw i lywodraethu gweithredol. Mae'r sail werthoedd gref a oedd yn amlwg ymhlith yr holl staff y siaradwyd â nhw ac a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, ynghyd â brwdfrydedd ac ymrwymiad i bobl ag anableddau dysgu, yn golygu bod yr awdurdod lleol mewn sefyllfa dda i fwrw ymlaen â'i broses weddnewid. Cadarnhawyd y gwerthoedd cadarnhaol hyn gan bobl, gofalwyr a darparwyr.

Y camau nesaf

Mae gofyn i'r awdurdod lleol gynhyrchu cynllun gwella mewn ymateb i argymhellion yr arolygiad. Er mai cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw'r cynllun, dylai fod ar gael i ni cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

Byddwn yn monitro cynnydd yng nghyswllt y cynllun gwella drwy ei rhaglen arferol o gyfarfodydd busnes a gweithgarwch ymgysylltu yn yr awdurdod. Lle bo angen, caiff gwaith dilynol ychwanegol ei drafod a'i drefnu gyda'r awdurdod lleol.

Canfyddiadau – Y Bwrdd Iechyd

Ymgwymerodd AGIC â gwaith maes er mwyn datblygu barn ar swyddogaeth y bwrdd iechyd yn y ddarpariaeth effeithiol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.

Crynodeb o'r Arolygiad

Cafodd pedwar o achosion eu holrhain gennym a oedd naill ai wedi'u hariannu ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol neu wedi'u hariannu gan iechyd yn unig, trwy adolygu cofnodion achos, cyfweld â gweithwyr proffesiynol allweddol priodol, a chyfarfod â phobl a'u teuluoedd. Cyfwelwyd staff iechyd ar y rheng flaen a staff rheoli yn y bwrdd iechyd, gan gynnwys yr arweinydd diogelu. Cynhaliwyd grŵp ffocws gennym ac roedd y tîm amlddisgyblaeth yn bresennol ynddo. Gwnaeth y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol gyflwyniad hefyd ar sut y maent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl.

Cwestiwn Allweddol 1

Pa mor dda mae'r bwrdd iechyd yn deall yr angen am ofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys cymorth i ofalwyr a datblygiad gwasanaethau ataliol yn ei ardal?

- 6.1. Canfuwyd tîm iechyd a oedd yn hynod ragweithiol gennym yn gyffredinol. Er enghraifft, roedd ganddynt nifer o ffrydiau gwaith ataliol yn rhedeg ochr yn ochr â'u gwaith clinigol, fel hyfforddiant yn y defnydd o gymorth ymddygiad cadarnhaol, gweithio gyda gofalwyr a gofal eilaidd i wella'r llwybr gofal eilaidd, a nifer o fentrau'n ymwneud â gwella'r broses bontio. Roedd hwn yn faes o arfer nodedig. Yn strategol, fodd bynnag, roedd angen ymrwymo i'r gwaith rhagorol yr oedd y tîm yn ymgymryd ag ef eisoes. Fe'n hysbyswyd gan y bwrdd iechyd ei fod yn ystyried yr opsiwn o ariannu nyrsys cyswllt iechyd.
- 6.2. Yn y pedwar achos i ni eu hadolygu, canfuwyd gennym fod pobl yn derbyn help a oedd wedi'i gydgysylltu'n dda ac yn rhagweld anghenion pobl yn y dyfodol. Er enghraifft, mewn un achos, roedd pecyn llety a chymorth wedi'i deilwra wedi cael ei greu. Mewn un achos i ni ei adolygu, o ran y llwybr pontio, fodd bynnag, nodwyd gennym y gallai hwn fod wedi cael ei gynllunio'n well ac roedd y tîm yn cydnabod bod hwn yn faes yr oedd angen ei gydgysylltu'n well. Roeddent yn gweithio ar wella hyn ac wedi canolbwyntio ar bontio mewn diwrnod cwrdd i ffwrdd. Rhoddasant enghreifftiau i ni o sut yr oeddent wedi rhoi cynlluniau ar waith i wella'r llwybr, fel datblygu cysylltiadau pellach gyda maes addysg. Ar hyn o bryd, mae dau weithiwr pontio yn yr awdurdod lleol yn hysbysu'r tîm iechyd am achosion pontio sydd angen mewnbwn iechyd. Roedd arweinydd y tîm yn gweithio ar egluro gweithrediadau'r tîm ac yn archwilio pa un a ellid defnyddio adnoddau pellach ar bontio yn unig. Fe'n hysbyswyd gan staff y gellid gwella'r llwybr gofal eilaidd, y llwybr fforensig, a chysylltiadau ag iechyd meddwl hefyd er mwyn sicrhau bod yr help y mae pobl yn ei dderbyn wedi'i gydgysylltu mor dda â phosibl. Roedd angen, ar lefel strategol, ymrwymo i fwrw ymlaen â'r gwaith rhagorol yr oedd y tîm iechyd eisoes yn adeiladu arno.

- 6.3. O ran cynlluniau'r bwrdd iechyd ar gyfer y gwasanaeth, roedd Cynllun Tymor Canolig Integredig ar waith, ond roedd diffyg nodau a thargedau eglur wedi'u cynnwys yn hwn i ymateb i heriau a diwallu anghenion y boblogaeth anabledau dysgu. Fe'n hysbyswyd gan staff iechyd nad oedd system ar waith ar gyfer monitro anghenion a chanlyniadau'r boblogaeth anabledd dysgu yn gyffredinol, er mwyn cynorthwyo cynllunio a chomisiynu yn y dyfodol ym maes iechyd, er bod rhywfaint o ddata yn cael eu casglu o ran pontio.
- 6.4. Ym maes iechyd, dim ond yn ddiweddar iawn yr oedd y gwasanaeth anabledd dysgu wedi uno ag iechyd meddwl, ac roedd strwythur dros dro ar waith tan y gellid cyflawni ailstrwythuro ehangach o'r gwasanaeth cyfan dros y flwyddyn nesaf. Roedd dealltwriaeth dda o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd i bobl ag anabledau dysgu, ac roedd gwaith ar y cyd yn cael ei wneud trwy fenter gydweithredol Bae'r Gorllewin (mae rhaglen Bae'r Gorllewin yn canolbwyntio fel menter gydweithredol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gyda phartneriaid trydydd sector a sector annibynnol). Serch hyn, nid oedd y bwrdd iechyd mewn sefyllfa ddigon sefydlog i gynllunio'n rhagweithiol neu ymrwmo'n strategol i waith ataliol a chynllunio ar lawr gwlad ar hyn o bryd.
- 6.5. Fe'n hysbyswyd gan staff y byddai safbwyntiau defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn unol â threfniadau llywodraethu, ond nid oedd dulliau cyfathrebu eglur, sefydledig yr ymddiriedir ynddynt ar waith eto. Ym maes iechyd, roedd arweinydd y tîm yn siaradwr Cymraeg a chynigir hyn i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ochr yn ochr â'r defnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd y bwrdd iechyd.
- 6.6. O ran cynllunio ar y cyd yn y dyfodol, rhoddodd menter gydweithredol Bae'r Gorllewin rai enghreifftiau lle'r oedd cynllunio ar y cyd yn digwydd ar lawr gwlad – er enghraifft, trwy'r fenter 'Agosach at Adref', i ddod â phobl ag anghenion cymhleth yn ôl i'r ardal leol. Gwelwyd gweithio ar y cyd hefyd gan fod y comisiynydd iechyd yn aelod o'r Grŵp Gweithredu ar Lety. Roedd cynllun cyd-gomisiynu ar waith a bwriadwyd i fwrdd cyd-gomisiynu fwrw ymlaen â gwaith cynllunio ar y cyd.
- 6.7. Yn gyffredinol, roedd hyn yn golygu bod enghreifftiau gwych o sut yr oedd y tîm ar lawr gwlad yn bwrw ymlaen â gwaith ataliol, a gwelsom fod cynllunio a

chomisiynu ar y cyd yn dechrau digwydd ar lefel fwy strategol. Fodd bynnag, nid oedd maes iechyd yn casglu data ac yn monitro anghenion y boblogaeth anabledd dysgu'n ffurfiol. Roedd hyn, ynghyd â'r ffaith fod y gwasanaeth yng nghanol proses ailstrwythuro fawr, yn golygu nad oedd sefydlogrwydd wedi'i sicrhau eto i ymrwymo i fwrw ymlaen â gwaith ataliol a chynllunio rhagweithiol ar lefel strategol ehangach.

Cwestiwn Allweddol 2

Pa mor effeithiol yw'r bwrdd iechyd o ran darparu gwybodaeth, cyngor, cymorth, asesiadau a chynllunio gofal sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol ac sy'n parhau pobl ag anableddau dysgu fel dinasyddion llawn, sy'n gyfartal o ran statws a gwerth â dinasyddion eraill o'r un oed?

- 7.1. Yn gyffredinol, yn yr achosion i ni eu holrhain, canfuwyd gennym fod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor, cymorth, asesiadau a chynllunio gofal i bobl ag anableddau dysgu. Roedd y tîm iechyd wedi'i hen sefydlu, sy'n cynnig cysondeb i bobl ag anableddau dysgu. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ymroddedig ei agwedd, a chanfuwyd enghreifftiau da o waith amlddisgyblaeth. Gwnaeth pobl i ni siarad â nhw a'u teuluoedd sylwadau cadarnhaol am staff iechyd.
- 7.2. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar sail anghenion unigol pobl. Yn yr holl achosion i ni eu holrhain, roedd staff y tîm iechyd wedi cymryd rhan yn y gwaith o gysylltu ag asiantaethau gofal cymdeithasol a staff hyfforddi i helpu i ddarparu gwasanaeth a fyddai'n diwallu anghenion unigol y person. Pobl a oedd yn byw y tu allan i'r sir oherwydd sefyllfaoedd brys tua chwe blynedd yn ôl pan nad oedd unrhyw ddarpariaeth o wasanaethau yn y sir a fyddai'n diwallu anghenion pobl oedd dau o'r achosion i ni eu hadolygu. Roedd y fenter 'Agosach at Adref' yn golygu bod un gwasanaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cael ei gynllunio i ymateb i ymddygiadau cymhleth pobl yn yr ardal, ac roedd ail safle yn y camau cynllunio. Roedd y ddau achos i ni eu holrhain wedi cael eu hadolygu ac roedd pobl wedi setlo ac felly nid oedd unrhyw gynlluniau i'r bobl symud yn ôl i'r ardal ar hyn o bryd, er i ni gael ein hysbysu y gellid cynllunio gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl erbyn hyn. Roedd hyn yn golygu bod bwriad o wella'r ddarpariaeth o wasanaethau i ddiwallu anghenion unigol pobl yn well, er bod staff yn cydnabod heriau sy'n parhau o ran llwybrau iechyd meddwl, fforensig, pontio a gofal eilaidd.

- 7.3. Roedd y tîm iechyd wedi addasu holiaduron i'w cynorthwyo i fonitro bodlonrwydd â gwasanaethau. Roedd rheolwr y tîm iechyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd o holiaduron er mwyn monitro safbwyntiau pobl ac ystyried gwneud gwelliannau. Mae'r tîm iechyd hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr ar welliannau i'r llwybr gofal eilaidd. Gwelsom fod y tîm yn gweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol a chydag arweinydd diogelu'r bwrdd iechyd ar bryderon diogelu ar lefel unigol a lefel benodol i wasanaethau. O ran hysbysu am bryderon diogelu, canfuwyd gennym fod staff iechyd yn hysbysu drwy'r awdurdod lleol yn hytrach na'r bwrdd iechyd. Roedd hyn yn golygu, er i ni gael ein sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith o ran diogelu pobl, na allem fod yn sicr bod y bwrdd iechyd yn cael darlun cywir o nifer y pryderon diogelu sy'n dod gan dimau cymunedol, nac yn gallu monitro hyn o ran patrymau a themâu.
- 7.4. Nodwyd gennym fod angen gwelliannau o ran y cyfathrebiad rhwng rheolwyr a staff rheng flaen y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu swyddogaethau ac wedi'u hymgysylltu â chyfeiriad a blaenoriaethau'r bwrdd iechyd.

Cwestiwn Allweddol 3

I ba raddau y mae'r trefniadau ar gyfer arweinyddiaeth a llywodraethiad yn y bwrdd iechyd wedi darparu gweledigaeth eglur ar gyfer gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, gyda'r nod o wella canlyniadau, ac sydd â chefnogaeth a chyfranogiad partneriaid – gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a gofalwyr?

- 8.1. Mae'r tîm iechyd a thîm yr awdurdod lleol wedi'u lleoli yn yr un man, yn cynnal cyfarfodydd tîm cyfan yn ogystal â chyfarfodydd penodol i wasanaethau, wedi gweithio gyda'i gilydd ar fentrau ar y cyd, ac, yn yr achosion i ni eu hadolygu, canfuwyd gennym fod pobl wedi derbyn gofal a chymorth ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a oedd wedi'i gydgysylltu'n dda. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i ategu gan system rheoli cofnodion a rennir effeithiol i gynorthwyo gwaith ar y cyd, ac roedd angen gwelliannau sylweddol yn hyn o beth. Roedd y tîm iechyd yn dal i ddefnyddio cofnodion papur ac roedd gan bob disgyblaeth ffeil ar wahân, ac nid oedd y tîm iechyd yn gallu cael mynediad at gofnodion gofal cymdeithasol yn annibynnol. Roedd hyn yn golygu nad oedd y system cofnodion yn cynnig golwg gyffredinol hygyrch o anghenion yr unigolyn heb ymchwiliad pellach gan staff iechyd a gofal cymdeithasol ac felly nid oedd yn helpu i hwyluso gwaith ar y cyd. Roedd perygl y gallai hyn effeithio ar gydgysylltiad gofal a dealltwriaeth o anghenion cyfannol unigolyn.
- 8.2. Canfuwyd gennym, o ran gwasanaethau iechyd anabledydd dysgu cymunedol, nad oedd gweledigaeth eglur ar waith gan fod yr uned yng nghanol ailstrwythuro llwyr a bod strwythur dros dro yn goruchwylio gwasanaethau ar y pryd. Roedd yr uned ar y camau cynnar o roi strategaeth ar waith, ac roedd digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer Chwefror 2016 pan, fe'n hysbyswyd gan staff, oeddent yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol. Roedd gwaith ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn parhau, ac roedd angen pennu blaenoriaethau a thargedau eglur. Roedd yr uned hefyd wedi datblygu trefniadau llywodraethu ychwanegol ar ffurf grŵp llywio anabledyddau dysgu a

oedd newydd gyfarfod am y tro cyntaf, gyda'r nod o ddarparu cyfathrebiad a throsolwg i'r holl grwpiau llywodraethu anabledd dysgu presennol. Ar yr un pryd, roedd staff y tîm iechyd ar lawr gwlad yn rhannu gweledigaeth a sail werthoedd gyda syniadau eglur iawn am gyfeiriad y gwasanaeth o ran yr hyn yr oeddent yn teimlo oedd yr heriau a'r hyn a oedd yn bwysig i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Awgrymwyd gennym y dylai'r bwrdd iechyd ymgysylltu cymaint â phosibl â staff wrth bennu cyfeiriad o dan yr uned newydd.

- 8.3. Nid oedd sianeli cyfathrebu eglur, sefydledig yr ymddiriedir ynddynt wedi'u sefydlu eto i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr am amcanion a chynlluniau. Serch hynny, gwelsom fod grŵp defnyddwyr yn rhan o'r gwaith llywodraethu a bod ymgysylltiad wedi'i gynllunio drwy'r digwyddiad strategaeth ddechrau 2016. Gwelsom fod menter gydweithredol Bae'r Gorllewin yn cynnig fforwm ar gyfer bwrw ymlaen â gwaith ar y cyd fel y strategaeth cyd-gomisiynu a'r bwrdd cyd-gomisiynu arfaethedig. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan staff nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth arbennig o dda am hyn.
- 8.4. Roedd hyn yn golygu bod angen i'r bwrdd iechyd ymgysylltu'n ymarferol â staff ar lawr gwlad a defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn ffordd fwy strategol i sicrhau eu bod yn symud ymlaen gyda'i gilydd, i bennu cyfeiriad ar gyfer y gwasanaeth ac er mwyn ymrwymo'n llawn i'r gwaith ar y cyd ar draws y maes.

Y camau nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno hwn i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau/unedau eraill y sefydliad ehangach.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Methodoleg

Arolwg a Hunanasesiad

Cwblhaodd yr awdurdod lleol arolwg data a hunanasesiad cyn cam gwaith maes yr arolygiad. Defnyddiwyd y wybodaeth o'r ddau i siapio'r llinellau ymholi manwl ar gyfer yr arolygiad. Bydd hefyd yn cael ei defnyddio i hysbysu'r adroddiad trosolwg cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Arolygiadau rheolaidd o wasanaethau a reoleiddir

Roedd y rhain yn cynnwys llinellau ymholi ychwanegol yn gysylltiedig â'r cwestiynau allweddol ar gyfer yr arolygiad cenedlaethol.

Cyfraniad gan Bobl yn Gyntaf Cymru a Fforwm Cymru Gyfan i Rieni a Gofalwyr

Gwnaeth y ddau sefydliad waith gyda'u haelodau ac eraill i ystyried y cwestiynau allweddol ar gyfer yr arolygiad ac adrodd yn ôl i'r arolygiaeth.

Gwaith maes

Roedd y tîm arolygu ar y safle ym Mhen-y-bont ar Ogwr am saith diwrnod wedi'u gwasgaru ar draws bythefnos ym mis Rhagfyr 2015. Canolbwyntiodd yr wythnos gyntaf ar brofiad pobl a'u gofalwyr a staff sy'n gweithio i ddarparu gofal a chymorth. Ystyriodd yr ail wythnos faterion arweinyddiaeth a llywodraethiad (gan gynnwys gwaith partneriaeth) a llwyddiant yr awdurdod o ran siapio gwasanaethau i sicrhau canlyniadau da i bobl. Roedd gweithgareddau yn ystod y gwaith maes yn cynnwys:

- Orlhain achosion – ystyriodd yr arolygwyr 20 o achosion dethol gan archwilio wyth o'r rheini yn fwy manwl gyda phobl, gofalwyr, rheolwyr gofal ac eraill.

- Cyfweiliadau – cynhaliodd yr arolygwyr nifer o gyfweiliadau grŵp ac unigol gyda staff, aelodau etholedig a phartneriaid.
- Arsylwadau – aeth arolygwyr AGGCC i'r ganolfan adnoddau, prosiectau cysylltiedig â gwaith, llety brys, a gwasanaethau cyfleoedd dydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac, ynghyd ag AGIC, gwrandawsant ar gyflwyniad gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd ar eu gwaith gyda'i gilydd i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu.

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r bobl ag anableddau dysgu a gyfrannodd at yr arolygiad, rhieni a gofalwyr, staff a rheolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, staff a rheolwyr y bwrdd iechyd, darparwyr gwasanaethau, a sefydliadau partner (gan gynnwys y trydydd sector) am eu hamser, eu cydweithrediad a'u cyfraniadau at yr arolygiad hwn.